CYNGOR BRO LLANLLWNI 9 MAWRTH 2015

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 9 Mawrth 2015 am 8.00yh
Cadeirydd: Dewi Davies
Clerc: Eirlys Owen

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd gwellhad buan i Eurig Davies.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Yr oedd arwyddion newydd wedi'u gosod yn gwahardd cŵn o'r cae chwarae.
Yr oedd y Clerc wedi derbyn cwyn am yr arwyddion yn gwahardd cŵn. Yn unol â chyngor a ddarparwyd gan Gyngor Sir Gâr ac Un Llais Cymru, mae gan y Cynghorwyr hawl cyfreithlon i wahardd cŵn rhag mynd ar y cae chwarae. Mae'r Cae Chwarae yn adnodd i blant ac nid ar gyfer ymarfer cŵn. At hyn, nid oes cŵn i fod ar y cae chwarae yn unol â rheoliadau Iechyd a Diogelwch.
Penderfynwyd cynnal mabolgampau ar y cae eleni i nodi agoriad swyddogol y cae a'r gwelliannau. Byddai'r Cyngor Bro yn trefnu'r gwobrau ar y dydd ac yn cysylltu â'r rhanddeiliaid priodol fel gwerthfawrogiad o'u cyfraniad.

Y GYMDEITHAS RIENI AC ATHRAWON:
Penderfynwyd danfon llythyr i ofyn i'r Rhieni beidio â pharcio tu allan i'r Ysgol oni bai bod hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch.

BRYNDULAIS:
Yr oedd ceir wedi eu gadael ar y stryd. Byddai'r cyngor yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

CYLLID
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Mai 2015 am 8yh.